Mae darparu gwasanaeth eiriolaeth statudol yn ddyletswydd ar awdurdod lleol sy'n cael ei dalu o'r grant cynnal refeniw. Er mwyn cydnabod bod y cynnig gweithredol yn ychwanegol at y darpariaethau presennol a nodir yn y ddeddfwriaeth mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i dalu costau llawn y cynnig gweithredol. Rhoddir ystyriaeth lawn o'r lefel o gyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i ddarparu'r gwasanaethau hyn i'r ddulliau cenedlaethol. Rhoddir ystyriaeth lawn o'r lefel o gyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i ddarparu'r gwasanaethau hyn i'r ddulliau cenedlaethol.

4. Sut y byddwch yn asesu effaith y Dull Cenedlaethol ar blant a phobl ifanc, a'r canlyniadau iddynt?

Mae'r Dull Cenedlaethol a amlinellir yn yr achos busnes yn cynnwys Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol sydd wedi'i fapio yn unol â'r Datganiad Llesiant sy'n sail i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r achos busnes hefyd wedi nodi cynigion ar gyfer Llywodraeth Cymru i gomisiynu adolygiad annibynnol o'r Dull Cenedlaethol i'w gynnal ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf o weithredu. Byddai'r adolygiad yn ceisio nodi'r gwelliannau a gyflawnwyd o ran ymwybyddiaeth ac ymgysylltu yn y gwahanol gamau gweithredu.

Byddai'r adolygiad hefyd yn asesu unrhyw welliannau mewn ansawdd gwasanaethau a phroblemau'n ymwneud â chapasiti, ac a oes angen unrhyw addasiad a neu ail-gyfrifo gan ddefnyddio'r dull Ystod a Lefel (h.y. defnyddio'r ffigurau poblogaeth diweddaraf, Adroddiadau Rheoli Perfformiad). Byddaf yn ystyried y cynnig hwn ymhellach ar ôl derbyn y cynllun gweithredu.

Effaith Rhan 10 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

5. Beth yw goblygiadau'r darpariaethau yn y Ddeddf i wasanaethau eiriolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc?

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cod Ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas ag Eiriolaeth o dan Ran 10 a rhannau cysylltiedig o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

O fewn y Cod rydym yn nodi'n glir ei bod yn rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol, ddefnyddio canlyniadau eu cydasesiad o anghenion y boblogaeth i lywio trefniadau comisiynu a phartneriaeth o dan y Ddeddf er mwyn darparu gwasanaethau eiriolaeth. Mae eiriolaeth yn cynnwys yr ystod lawn o ddarpariaeth a nodir yn y Cod Ymarfer.

Bydd y rownd gyntaf o adroddiadau ar Asesiad o Anghenion y Boblogaeth yn cael eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2017 a bydd hyn yn darparu gwell dealltwriaeth o'r angen i ddarparu gwasanaethau eiriolaeth.

6. Sut y byddwch yn asesu effaith y darpariaethau yn y Ddeddf sy'n ymwneud ag eiriolaeth a'r Cod Ymarfer cysylltiedig ar Eiriolaeth?

Wrth i ni symud ein ffocws o ddatblygu'r fframwaith statudol o dan Ddeddf 2014 i gyflawni ei ymrwymadau, rwy'n cydnabod ei bod yn hanfodol bwysig bod gennym drefniadau gwerthuso digonol ar waith i allu asesu a yw'r Ddeddf yn cyflawni'r hyn yr oeddem yn bwriadu ei gyflawni.

Bydd y gwerthusiad yn cael ei gynnal mewn tri cham. Bydd y cam cyntaf yn ymwneud â monitro polisïau o dan y Ddeddf yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu. Bydd yr ail gam yn cynnwys gwerthusiad parhaus, drwy'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol a fframweithiau mesur perfformiad awdurdodau lleol. Bydd y trydydd cam yn werthusiad untro hirdymor annibynnol, gan ddechrau yn y drydedd flwyddyn o weithredu'r Ddeddf.

Mae'r gwaith monitro yn edrych ar y gwahaniaeth y mae'r Ddeddf yn ei chyfanrwydd yn ei wneud yn hytrach na chanolbwyntio ar rannau penodol o'r Ddeddf. Roedd rhanddeiliaid yn croesawu'r dull gweithredu a'r cyfeiriad cenedlaethol a nodir yn y fframwaith canlyniadau cenedlaethol.


Byddwn hefyd yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau bod gennym ddealltwriaeth glir o sut mae gofynion o dan Ran 10 yn gweithredu'n ymarferol.

7. A oes gennych dystiolaeth fod y ddarpariaeth sy'n ymwneud ag eiriolaeth yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 wedi arwain at ddeilliannau gwell ar gyfer plant a phobl ifanc?

Cychwynnodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar 6 Ebrill 2016 ac mae'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol wedi cael ei gyhoeddi. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei hadroddiad blynyddol cyntaf ar y fframwaith canlyniadau erbyn mis Mawrth 2017. Hefyd, bydd data ychwanegol gan Wasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc yn cael eu cyhoeddi erbyn hydref 2017. Fodd bynnag, ni fydd y data yn ymwneud yn benodol ag eiriolaeth gan nad oes unrhyw ganlyniadau neu fesuriadau penodol ar waith ar gyfer y maes hwn ar lefel genedlaethol ar hyn o bryd.

Rwy'n disgwyl gweld cynnydd sylweddol o ran symud ymlaen gyda'r Dull Cenedlaethol pan fydd y cynllun gweithredu yn ei le yn ddiweddarach y mis hwn.

Yn gywir



Carl Sargeant/AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children

Eitem 5.1

Comisiynydd Plant Cymru

Children's Commissioner for Wales

Sally Holland

By email only

3 November 2016

Lynne Neagle AM
 Chair - Children, Young People & Education Committee
 National Assembly for Wales
 Cardiff Bay
 Cardiff CF99 1NA

Dear Lynne

Thank you for chairing a stimulating scrutiny session of my Annual Report and Accounts on October 5 2016. During that session I agreed to provide further information with regards to the breakdown of cases dealt with by my office during 2015/16 and plans in relation to our strategic outreach programme.

Breakdown of the types of cases that have been dealt with by the Investigations and Advice team over the last year:

The Table below gives the primary classifications assigned to cases when they are taken on by my Investigations and Advice team. There were 520 cases dealt with in total but the primary classifications amount to more than this as some cases are classified with a number of issues dependant on the matters at hand.

Primary Classification	Total Count
CAFCASS	11
Education	293
Environment	51
Health	51
Housing	19
Immigration/Asylum	9
Legal	52
Local Authority (Other)	11
Police	13
Social Services	245

Highlights of our engagement work this year:

- Met, listened and spoke face-to-face to nearly 4000 children and young people from all 22 local authority areas
- 6000 children aged 3-18 responded to our Beth Nesa' / What Next survey (there is a breakdown of the sample within each of the detailed reports for each age group that took part in this large-scale survey – all are available on our website)
- 1000 children responded to our School Journeys 'Special Mission'
- 206 pupils from 80 schools took part in our Super Ambassadors celebration events, to help launch the new Commissioner
- 68 looked after children and care leavers, aged between 15 and 25, attended our north and south Wales events. They represented all 22 local authorities.

Key elements of our engagement work:

Super Ambassadors are one of the ways we listen to children and young people. Our School Ambassadors are primary school pupils who are elected by their peers; their job is to raise awareness about the Children's Commissioner for Wales and children's rights within their schools. Pupils are also required to complete special missions, canvassing opinions from peers on a wide range of issues; opinions which are then fed directly into our work. We now have nearly 200 active Super Ambassadors schools, and we have secured a direct link with existing Welsh Government programmes, such as the Welsh Network of Healthy Schools.

Community Ambassadors is a scheme based on the School Ambassadors concept, targeting children and young people living in areas of social deprivation and/or from disadvantaged groups. It offers opportunities for groups of children and young people who already meet together in non-formal education settings in communities in Wales. They include New Leaf, a Gypsy Traveller Forum in Cardiff, Mixtup, a mixed ability youth group in Swansea and Ebbw Fawr youth group based in a Communities First area in Blaenau Gwent, and Adamsdown Community First in Cardiff.

Webinars also feature heavily now in our direct engagement work with children and young people. We believe it is a cost-effective way of enabling a large number of pupils to engage directly with the Commissioner, helping us to gather pupils' views and raise awareness of the Commissioner and UNCRC. In February, we hosted a webinar where 23 schools logged on to and we recorded 430 online viewers. Partnership working has been a critical element of how we promote children's rights. Over the last seven years, we have worked with a number of partners including S4C on developing a dedicated TV series on our campaign See Me / Dyma Fi, a piece of work aimed at smashing the stereotypes of children and young people in Wales. We are also a member of the Welsh Government's Article 42 group that oversees all awareness work undertaken by Government in relation to the UN Convention on the Rights of the Child. Membership of the group enables us to complement rather than duplicate efforts in relation to raising awareness of children's rights in Wales.

Supporting others to work with and listen to children and young people also features in our work plan. We have engaged with organisations including Kids in Museums, Welsh Ambulance and Welsh Government departments, offering them advice on participation and ensuring all engagement work with children and young people is underpinned by the UNCRC. Our staff also attend the national participation workers' network. This has enabled us to listen to issues being handled by participation workers across the country.

Page 3

Working directly with schools is another way of enabling children and young people to find out about their rights and have access to the Commissioner. We proactively arrange visits to schools and groups, covering every local authority in Wales, every year.

Ensuring others who run a similar programmes of visits, such as UNICEF's rights respecting schools, have up-to-date information about us and our work is another cost effective way of making information about rights and the children's commissioner accessible to as many children and young people as possible.

Strategic approach:

On an annual basis we measure awareness levels of the Commissioner amongst children and young people via an independent research company. The results enable us to target our awareness and engagement work.

My strategic equality plan outlines how I intend to ensure that my team and I work towards ensuring that children and young people in Wales grow up in a country where equality and children's human rights are central to the way in which public services are delivered. Equality considerations will continue to be built into the design of policies and the delivery of all my work, including our engagement work, and will be kept under constant review.

I hope you find this additional information useful to further inform the scrutiny of my annual report and the work of the office of the Children's Commissioner for Wales. As discussed during the session, the roles of the Committee and Commissioner are symbiotic in nature as we both play key parts in scrutinising the work of government and seeking improved outcomes for the children and young people of Wales. Our collaborative approach has invigorated a healthy dialogue and I look forward to building upon this relationship over the rest of our tenures.

Yours sincerely



Sally Holland
Children's Commissioner for Wales

Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

4 Tachwedd 2016

Annwyl Ysgrifennydd y Cabinet

Adolygiad Diamond

Yn dilyn cyhoeddi'r Adolygiad annibynnol o drefniadau cyllido addysg uwch a chyllid myfyrwyr (Adolygiad Diamond) roedd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau yn awyddus i archwilio sut y bydd y gwaith hwn yn effeithio ar feysydd yn ein cylch gwaith.

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 12 Hydref manteisiais i a Hefin David ar y cyfle i holi'r Athro Syr Ian Diamond am ei adroddiad a sut y mae'n berthnasol i gylch gwaith Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau.

Y diwrnod canlynol cynhaliodd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith, a Sgiliau sesiwn rhanddeiliaid i gasglu ymatebion. Roeddem yn ddiolchgar bod uwch-swyddogion o Lywodraeth Cymru wedi dod i'r digwyddiad hwn er mwyn clywed ymatebion yn uniongyrchol ac adrodd yn ôl i chi.

Clywodd y rhanddeiliaid drafodaethau ar yr effaith debygol ar economi Cymru, ymchwil ôl-raddedig ac ar ddatblygu sgiliau lefel uwch. I gloi gwnaethom ofyn hefyd am sylwadau cyffredinol. Mae'r llythyr hwn yn nodi ein casgliadau a'n hargymhellion sy'n deillio o'r cyfarfod hwnnw.

Casgliadau

Mae argymhellion Diamond wedi cael eu croesawu gan groestoriad eang o randdeiliaid. Mae brwdfrydedd penodol o ran y syniad y bydd pob myfyriwr – nid yn unig yr israddedigion hynny sy'n 18 oed neu'n hŷn mewn addysg amser llawn –



yn gymwys i gael cymorth ar sail angen. Mae'r syniad y gallai Cymru arwain y ffordd yn y dull hwn wedi bod yn boblogaidd iawn.

Mae'n arbennig o boblogaidd o ran gwella sgiliau'r gweithlu presennol, gyda llawer ohonynt yn ystyried cymorth ar gyfer astudio'n rhan-amser ochr yn ochr â'u gwaith yn arbennig o apelgar.

Er bod argymhellion Diamond yn cael eu gweld fel ateb i gylch gwaith penodol a roddwyd i'r grŵp adolygu, mae cydnabyddiaeth eang bod angen ystyried materion eraill ym maes addysg uwch – er enghraifft recriwtio a chadw staff – a bod angen cymryd camau yn hyn o beth.

Rydym yn ymwybodol, yn dilyn eu cyfarfod â'r Athro Diamond, fod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi argymhell bod argymhellion Diamond yn cael eu rhoi ar waith yn llawn, ac yn cael eu hariannu'n llawn drwy gydol y Cynulliad hwn.

Argymhellion

Rydym yn argymhell y canlynol:

- bod y camau gweithredu yn cael eu hintegreiddio â'r gwaith sy'n mynd rhagddo i sicrhau bod ein system addysg yn galluogi unigolion i ddatblygu'r sgiliau y bydd eu hangen ar economi Cymru, a'r gwaith ar Strategaeth Economaidd newydd;
- bydd angen gwneud rhagor o waith i fynd i'r afael â diwygiadau mewn addysg uwch sydd y tu hwnt i gwmpas Adolygiad Diamond;
 - gall hyn gynnwys mesurau i wrthbwysu effaith Brexit ar recriwtio myfyrwyr a staff addysgu o dramor;
 - ond gall hefyd ystyried mesurau i fynd i'r afael a'r effaith sylweddol ar lwyth gwaith darlithwyr, yn enwedig o ystyried nifer y myfyrwyr rhyngwladol, sydd eisoes yn uchel, yn enwedig ôl-raddedigion.
- bod y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth yn adolygu maint y cymorth a geir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau arloesi a bod Ysgrifennydd y




Cabinet dros Addysg yn ystyried pa mor effeithiol y mae'r sgiliau entrepreneuriaidd yn cael eu meithrin ym maes addysg uwch. Clywodd aelodau'r Pwyllgor y gall symiau bach o gymorth ariannol ar gyfer prosiectau arloesi arwain at fanteision sylweddol;

- bod Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo perthynas fwy "deinamig" rhwng addysg bellach ac addysg uwch, gan gynnwys adolygu a gwerthuso gwahanol fodelau o gydweithredu a phartneriaeth rhwng addysg bellach ac addysg uwch, sy'n ategu yn hytrach na dyblygu; Manteision posibl hyn yw'r canlynol:
 - annog datblygiad myfyrwyr unigol;
 - cynyddu nifer y dysgwyr sy'n ennill sgiliau lefel uwch;
 - hyrwyddo llwybrau mwy hyblyg rhwng addysg/dysgu (amser llawn a rhan-amser); anweithgarwch economaidd; a chyflogaeth (amser llawn a rhan-amser); a
 - helpu i adfywio cymunedau sydd â lefelau uchel o anweithgarwch economaidd ac amddifadedd.
- bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r ffyrdd y mae busnesau bach a chanolig yn ymgysylltu â'r sector addysg uwch a'r ffyrdd y gellir gwneud hyn yn fwy effeithiol. Yn aml, nid oes gan fusnesau bach a chanolig yr amser, yr adnoddau na'r ddealltwriaeth o sut i ymgysylltu â'r sector addysg uwch yn effeithiol;
- bod Llywodraeth Cymru yn gwerthuso effaith argymhellion Adolygiad Diamond. Rydym yn credu y dylai hyn ddigwydd tair blynedd ar ôl gweithredu'r newidiadau.

Deallaf y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei hymateb i argymhellion Diamond yn yr wythnosau nesaf, a hyderaf y bydd ystyriaeth y Pwyllgor o'r materion a'r argymhellion yn ddefnyddiol i chi.



Cofion gorau,

A handwritten signature in black ink that reads "Russell George". The signature is written in a cursive style with a large, sweeping initial 'R' and a long horizontal flourish underneath.

Russell George AC

Cadeirydd

Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Copi at: Alun Davies AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes (gan gynnwys Addysg Bellach)

Copi at: Julie James AC, y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth

Copi at: Lynne Neagle AC, Cadeirydd, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg



Alun Davies AC
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

02 Tachwedd 2016

Annwyl Weinidog

Ymchwiliad i Waith Ieuenctid

Mae'r Pwyllgor wedi cael gwybod am yr ohebiaeth rhwng eich swyddogion a Chyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol sy'n datgan y bydd ei grant yn dod i ben ar 31 Mawrth 2017. Byddwch yn deall bod gan y Pwyllgor bryderon difrifol am y datblygiadau hyn a'i fod yn ceisio eglurhad ar frys ynghylch y penderfyniad a wnaed gennych.

Pan ddaethoch i gyfarfod y Pwyllgor ar 12 Hydref, fe'n hysbyswyd gennych fod y Gweinidog blaenorol wedi comisiynu gwaith a oedd yn archwilio modelau ar gyfer darparu gwaith ieuenctid yn y dyfodol. Dywedasoch y byddech yn trafod y materion gyda grŵp cyfeirio'r Gweinidog ar gyfer gwaith ieuenctid ym mis Rhagfyr – eich cyfarfod cyntaf gyda'r grŵp – cyn gwneud penderfyniad ar fodel ar gyfer y dyfodol.

Ar 31 Hydref cyflwynwyd llythyr i Gyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol yn rhoi gwybod iddo na fydd yn derbyn cyllid grant ar gyfer blwyddyn ariannol 2017–18.

Yng ngoleuni'r datblygiadau hyn, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech ateb y cwestiynau canlynol –

- 1) Ar ba ddyddiad y gwnaethoch chi benderfynu na fyddai Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol yn derbyn cyllid ar gyfer 2017–18?



- 2) Pa drafodaethau a gynhaliwyd gyda Chyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol, y grŵp cyfeirio ar gyfer gwaith ieuenctid neu'r sector ehangach cyn ichi wneud y penderfyniad hwnnw?
- 3) Ar ba dystiolaeth y gwnaethoch chi seilio eich penderfyniad i beidio ag ariannu Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol ar gyfer 2017-18?
- 4) Pam y gwnaethoch chi newid eich meddwl o ran aros tan fis Rhagfyr i wneud penderfyniad ar fodel ar gyfer y dyfodol?
- 5) Pa gynlluniau sydd gennych ar gyfer darpariaeth amgen i ymgymryd â swyddogaethau Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol?
- 6) Pam y bu'n angenrheidiol gwneud y penderfyniad cyn i'r Pwyllgor gwblhau ei ymchwiliad i Waith Ieuenctid?

Byddwch yn dod i gyfarfod y Pwyllgor ar 10 Tachwedd i drafod y Gyllideb ddrafft. Mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor yn dymuno gofyn cwestiynau eraill ynghylch y mater hwn yn ystod y cyfarfod hwnnw. Felly, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r llythyr hwn erbyn diwedd dydd Llun 7 Tachwedd.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Ysgrifennydd y Cabinet o ran cwrteisi, oherwydd bydd hi'n bresennol yn y cyfarfod ar 10 Tachwedd gyda chi.

Yn gywir



Lynne Neagle AC
Cadeirydd

Copi: Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg





Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MAP/ARD/6906/16

Lynne Neagle AC
Cadeirydd y Pwyllgor
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

9 Tachwedd 2016

Annwyl Lynne,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 2 Tachwedd yn gofyn am eglurhad o'r trefniadau ariannu ar gyfer Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS).

Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 12 Hydref, esboniais y byddaf yn mynd i gyfarfod y Grŵp Cyfeirio Gweinidogol ar gyfer Gwaith Ieuenctid ym mis Rhagfyr ac y byddaf yn manteisio ar y cyfle hwnnw i drafod gwahanol fodelau ar gyfer cyflawni gwaith ieuenctid. Mae hyn yn dilyn gwaith a gomisiynwyd gan fy rhagflaenydd, Julie James, ar ôl lansio Siarter Gwaith Ieuenctid Cymru. Dyna yw fy mwriad o hyd.

Rwyf am symud at ddull mwy agored a hyblyg o ddarparu cymorth i'r sector gwaith ieuenctid. Fel rhan o'r weledigaeth hon, mae angen i ni ailfeddwl y modd rydym yn ariannu'r cymorth ar gyfer y sector gwirfoddol. Credaf mai dyma'r ffordd gywir ymlaen.

Mae fy swyddogion, a Gweinidogion blaenorol, wedi ymgysylltu a chynnal deialog rheolaidd â CWVYS a'r Grŵp Cyfeirio ar gyfer Gwaith Ieuenctid. Cyfarfu swyddogion â Phrif Weithredwr a Chadeirydd CWVYS ym mis Rhagfyr 2015, a chafwyd cyfarfod pellach anffurfiol rhwng y swyddogion a'r Cadeirydd yn ystod y cyfnod pan oedd yr amcanion grant yn cael eu negodi. Ni thrafodwyd y trefniadau ariannu presennol sydd gennym â CWVYS, na threfniadau'r dyfodol, â'r Grŵp Cyfeirio ar gyfer Gwaith Ieuenctid na'r sector ehangach; ni fyddai hyn wedi bod yn briodol.

Mae arfer gorau yn golygu ei bod yn ofynnol i ni werthuso rhaglenni ariannu bob 3-5 mlynedd o leiaf. Mae ein dogfen Trydydd Sector yn nodi bod ymrwymiad arnom i roi'r cyfnod cyllid mwyaf pan fo'n bosibl, i leihau unrhyw gostau gweinyddu a gwella effeithlonrwydd y cyllid.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Alun.Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nodwyd yn ein Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol (2014-18) y byddai arian grant i CWVYS ar gael am ddwy flynedd o leiaf, ac yna y byddai'n cael ei adolygu yn unol â'r broses o ddatblygu cymorth i'r sector gwirfoddol ehangach. Mewn gwirionedd, mae'r arian wedi bod ar gael am dair blynedd. Felly, mae'n bryd i ni adolygu ac ystyried y ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni ein hamcanion yn effeithlon ac yn gost effeithiol.

Mae'r dirwedd, o ran nifer ac amrywiaeth y rhanddeiliaid ac o ran ffrydiau cyllido ar draws y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol yng Nghymru, yn gymhleth. Fy nymuniad yw symud at ddull symlach a mwy agored a hyblyg ar gyfer darparu cymorth priodol, cynrychiadol ac effeithiol i'r sector. Fel rhan o'r weledigaeth hon, mae angen i ni ailfeddwl y modd yr ydym yn ariannu'r cymorth hwn.

Fodd bynnag, yn sgil y sylwadau sydd wedi dod i law, rwy'n fodlon adolygu fy null gweithio ar gyfer hyn.

Felly, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion wneud y newidiadau angenrheidiol i'r model cyllido er mwyn caniatáu digon o amser ar gyfer trafodaethau manylach ar gynllun gweithredu i helpu CWVYS i ddod yn hunan-gynhaliol fel sefydliad. Byddant hefyd yn dechrau mynd ati, mewn partneriaeth ac mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid perthnasol, i ystyried yr opsiynau ar gyfer darparu cymorth yn y dyfodol.

Heddiw, rwyf wedi ysgrifennu at CWVYS yn amlinellu fy null gweithio newydd. Rwy'n pwysleisio eto fy mod yn cefnogi'n llwyr rôl werthfawr gwaith ieuenctid yng Nghymru a'r gwaith hollbwysig y mae sefydliadau'r sector gwirfoddol yn ei wneud, ac edrychaf ymlaen at gwrdd â'r Grŵp Cyfeirio ar gyfer Gwaith Ieuenctid ym mis Rhagfyr. Yn y cyfamser, rwy'n bwriadu cwrdd â Phrif Weithredwr a Chadeirydd CWVYS i drafod sut allwn gydweithio'n effeithiol er budd sefydliadau gwirfoddol a bobl ifanc yng Nghymru.

Yn gywir



Alun Davies AC/AM

Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Lifelong Learning and Welsh Language

Carl Sargeant AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA – P/CS/7437/16

Lynne Neagle AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

Lynne.Neagle@cynulliad.cymru

gk Tachwedd 2016

Annwyl Lynne

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 2 Tachwedd, cytunais roi gwybod i'r Pwyllgor am gymorth ariannol i Chwarae Cymru yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn credu'n gryf bod chwarae'n rhan bwysig iawn o fywydau plant a'i fod yn sicrhau manteision o ran eu hiechyd, eu hapusrwydd a'u lles. Rwy'n gwerthfawrogi'r ffaith bod Chwarae Cymru'n cefnogi Llywodraeth Cymru, yr awdurdodau lleol a'r sector chwarae wrth greu Cymru sy'n annog y cyfle i chwarae, er budd ein plant a'u teuluoedd.

Rydym wedi rhoi cyllid i Chwarae Cymru i gyflawni'r swyddogaeth honno ers sawl blwyddyn, ac rwy'n ystyried parhau i roi cymorth ariannol i'r sefydliad. Fodd bynnag, ni ellir gwneud ymrwymiad o ran hynny hyd nes i gyllideb Llywodraeth ar gyfer 2017-18 gael ei chytuno fis nesaf. Ond, gwnaf yn siŵr bod y Pwyllgor yn cael gwybod y newyddion diweddaraf am y mater hwn.

Yn gywir

Carl Sargeant AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Carl.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 61

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon